OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2787

# Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

## RHAN VI

## ADRODDIADAU

### Adroddiadau

**13.**—(1) Pan ddaw archwiliad a gynhelir yn unol â Rhan III o'r rheoliadau hyn i ben, rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad.

(2) Pan ddaw adolygiad swyddogaethau, adolygiad trefniadau, monitro yn unol ag adran 73(1) o'r Ddeddf neu asesiad yn unol ag adran 73(1A) o'r Ddeddf i ben, fe gaiff y Comisiynydd gyflwyno adroddiad.

(3) Rhaid i adroddiad a gyflwynir o dan baragraff (1) neu (2) nodi—

(a) canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiynydd; a

(b) unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiynydd.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o adroddiad o'r fath—

(a) at y Prif Weinidog; a

(b) i lyfrgelloedd y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi

(a) yn achos adroddiad a gyflwynir o dan baragraff (1), at y plentyn neu'r person, yn ôl fel y digwydd, a gyflwynodd sylwadau i'r Comisiynydd yn unol â rheoliad 6; a

(b) yn achos adroddiad a gyflwynir o dan baragraff (1) neu (2), at y person neu'r personau

(i) y mae ei waith wrth ddarparu gwasanaethau neu ei waith wrth arfer swyddogaethau wedi'i archwilio,

(ii) y mae ei drefniadau mewn perthynas â chŵynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth wedi'u hadolygu neu wedi'u monitro,

(iii) y mae asesiad yn unol ag adran 73(1A) o'r Ddeddf wedi'i gynnal mewn perthynas ag ef, neu

(iv) a grybwyllir yn yr adroddiad.

### Camau pellach yn sgil adroddiad

**14.**—(1) Os yw'r Comisiynydd wedi cyflwyno adroddiad o dan baragraff (1) o reoliad 13 sy'n cynnwys argymhelliad mewn perthynas â darparydd gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru, y Cynulliad neu berson a grybwyllir yn Atodlen 2A i'r Ddeddf, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol mewn ysgrifen i'r person y gwneir yr argymhelliad mewn perthynas ag ef roi'r wybodaeth berthnasol i'r Comisiynydd o fewn tri mis o ddyddiad anfon copi o'r adroddiad at y person hwnnw.

(2) Os yw'r Comisiynydd wedi cyflwyno adroddiad o dan baragraff (2) o reoliad 13 sy'n cynnwys argymhelliad mewn perthynas â pherson a grybwyllir ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn, caiff y Comisiynydd ofyn mewn ysgrifen i'r person y gwneir yr argymhelliad mewn perthynas ag ef roi'r wybodaeth berthnasol i'r Comisiynydd o fewn tri mis o ddyddiad anfon copi o'r adroddiad at y person hwnnw.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2) ystyr "yr wybodaeth berthnasol" yw unrhyw wybodaeth, esboniadau neu gymorth i alluogi'r Comisiynydd i benderfynu a yw'r person o dan sylw wedi cydymffurfio â'r argymhelliad neu a fydd yn cydymffurfio ag ef, neu esboniad ar y rheswm dros beidio â chymryd camau o'r fath neu dros beidio â bwriadu eu cymryd.

(4) Pan wneir gofyniad o dan baragraff (1) neu gais o dan baragraff (2) rhaid iddo gynnwys datganiad y gall methiant i ymateb o fewn y tri mis gael ei gyhoeddi mewn unrhyw fodd y mae'r Comisiynydd yn credu ei fod yn briodol.

(5) Os yw'r Comisiynydd yn credu'n rhesymol, pan gaiff yr wybodaeth berthnasol, nad yw'r camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r argymhelliad neu nad yw'r rheswm am beidio â chymryd camau o'r fath neu am beidio â bwriadu eu cymryd, yn ddigonol, caiff y Comisiynydd anfon hysbysiad ysgrifenedig at y person o dan sylw yn nodi'r diffygion, sef hysbysiad y mae angen ymateb iddo o fewn un mis o ddyddiad ei anfon.

(6) Os na chaiff y Comisiynydd ymateb yn unol â'r hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff (5) o fewn un mis neu os yw'n anfodlon ar yr ymateb, caiff y Comisiynydd anfon hysbysiad atodol sy'n mynnu ymateb atodol o fewn un mis o ddyddiad ei anfon.

(7) Rhaid i'r hysbysiad atodol gynnwys datganiad y gall methiant i roi'r hyn sy'n ymateb atodol boddhaol ym marn y Comisiynydd, neu fethiant i ymateb o gwbl, gael ei gyhoeddi mewn unrhyw fodd y mae'r Comisiynydd yn credu ei fod yn briodol.

(8) Rhaid i'r Comisiynydd gadw cofrestr yn cynnwys manylion—

(a) argymhellion a geir mewn adroddiadau a gyflwynir o dan baragraffau (1) neu (2) o reoliad 13, a

(b) canlyniadau camau pellach a gymerir yn unol â pharagraffau (1), (2), (5) a (6) o'r rheoliad hwn.

(9) Rhaid i unrhyw gofrestr a gedwir o dan baragraff (8) fod yn agored i'w harchwilio gan unrhyw un ar bob adeg resymol yn swyddfeydd y Comisiynydd a chaiff y Comisiynydd wneud trefniadau i gopïau o'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio mewn unrhyw fan arall neu fannau eraill neu drwy unrhyw fodd arall y mae'n credu eu bod yn briodol.

(10) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r trefniadau a enwyd mewn ffordd a fydd yn dod â hwy i sylw personau y mae'n debyg, ym marn resymol y Comisiynydd, y bydd ganddynt ddiddordeb.

### Adroddiadau Blynyddol

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Prif Weinidog, y mae'n rhaid iddo gynnwys—

(a) crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, gan gynnwys crynodeb o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac o unrhyw sylwadau y gall y Comisiynydd fod wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod hwnnw yn unol ag adran 75A o'r Ddeddf, gan gynnwys unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ynghylch amrediad neu effeithiolrwydd pwerau'r Comisiynydd;

(b) adolygiad o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru; ac

(c) crynodeb o raglen waith y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y cyflwynir yr adroddiad ynddi ac o gynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd hefyd gynhyrchu fersiwn o'r adroddiad blynyddol sydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn addas ar gyfer plant.

(3) Rhaid i'r adroddiadau cyntaf y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) gael eu cyflwyno yn 2002.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r Comisiynydd, erbyn 1 Hydref bob blwyddyn, anfon copi o'r adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2)—

(a) at y Prif Weinidog; a

(b) i lyfrgelloedd y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd.

**Cyhoeddi adroddiadau**

**16.**—(1) Rhaid i'r Comisiynydd drefnu bod copïau o adroddiadau a gyflwynir o dan baragraffau (1) neu (2) o reoliad 13 ac o dan reoliad 15 ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r Comisiynydd ar bob adeg resymol ac mewn unrhyw fannau eraill neu drwy unrhyw gyfrwng arall, gan gynnwys drwy gyfrwng electronig, y mae'r Comisiynydd yn credu eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r trefniadau a enwyd mewn ffordd a fydd yn dod â hwy i sylw personau y mae'n debyg, ym marn resymol y Comisiynydd, y bydd ganddynt ddiddordeb.